Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Protocol Diogelu Contractwyr**

## Cyflwyniad

Mae diogelu pobl agored i niwed yn un o brif flaenoriaethau corfforaethol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr (y 'Cyngor'). Mae *Polisi Diogelu Corfforaethol* y Cyngor yn ei gwneud yn glir **bod diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed yn gyfrifoldeb i bawb.**

Fel Contractwr sy'n darparu nwyddau, gwasanaethau neu waith ar ran y Cyngor, mae'n ofynnol i chi gyflawni eich rôl wrth sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau diogelu.

## Amcanion

Mae'r Protocol hwn yn rhoi arweiniad i Gontractwyr fel eu bod yn deall eu rôl wrth gefnogi'r Cyngor i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio. Mae'n ymwneud â sicrhau bod gweithlu contractwyr y Cyngor yn gwybod:

- Beth yw Diogelu;
- Sut mae camdriniaeth/niwed yn edrych, a;
- Beth y dylen nhw ei wneud os ydyn nhw'n meddwl bod rhywun yn cael ei gam-drin neu mewn perygl o gael ei gam-drin.

Dylid defnyddio'r Protocol hwn ar y cyd ag unrhyw un o bolisïau a gweithdrefnau diogelu'r contractwyr eu hunain ynghyd â chodau ymddygiad perthnasol ar gyfer y sefydliad neu eu cyrff proffesiynol/rheoleiddiol. Dylai hyfforddiant diogelu a nodwyd gan gontractwr fel sefydliad a/neu sy'n ofynnol gan gyrff perthnasol hefyd gael ei gyflawni gan yr holl weithwyr perthnasol.

## Pwy sydd wedi'u cwmpasu gan y Protocol hwn?

Mae pob contractwr, is-gontractwr neu sefydliad arall a ariennir gan y Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwiriadau drwy'r broses recriwtio ddiogel ac am sicrhau bod eu 'gweithlu' yn cydymffurfio â threfniadau rheoliadol a chytundebol sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau diogelu. Mae pob contractwr, is-gontractwr a sefydliad arall yn gyfrifol am roi gwybod i Reolwyr perthnasol yn y Cyngor am unrhyw bryderon diogelu sydd ganddynt.

Ar gyfer y Protocol hwn, diffinnir 'gweithlu' fel y rhai sy'n ymwneud ag unrhyw gontractwr a ariennir gan y Cyngor, gan gynnwys gweithwyr parhaol a dros dro, myfyrwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr a gyflogir gan asiantaethau cyflogaeth, isgontractwyr ac ymgynghorwyr.

Disgwylir i'r holl 'weithlu' sy'n ymgymryd â dyletswyddau ar ran Contractwr sy'n dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sydd mewn perygl ddeall eu cyfrifoldeb a, lle y bo angen, gymryd camau i ddiogelu a hyrwyddo lles pobl agored i niwed.

## Diffiniadau o Blant ac Oedolion sydd mewn Perygl

**Plant a Phobl Ifanc mewn Perygl -** yn cael ei ddiffinio yn ôl y gyfraith fel unrhyw un nad yw eto wedi cyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. Mae estyniad o'r oedran hwn yn bodoli ar gyfer rhywfaint o ddarpariaeth statudol ar gyfer plant sydd wedi bod yng ngofal y Cyngor. Mae Adran 130(4) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "plentyn mewn perygl" fel plentyn:

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac
- y mae ganddo anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r Cyngor yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio).

**Oedolion mewn Perygl**— yn cael ei ddiffinio fel unrhyw un 18 oed neu drosodd y mae ei allu i amddiffyn ei hun wedi'i gyfyngu. Gallai hyn fod oherwydd oedran a bregusrwydd, salwch meddyliol neu gorfforol, colli synhwyrau neu anabledd corfforol neu ddysgu. Gallai fod yn rhywun sydd fel arfer yn gallu ymdopi ond nad yw'n gallu dros dro oherwydd damwain neu salwch. "Oedolyn mewn perygl" yw oedolyn:-

- sy'n wynebu - neu mewn perygl o wynebu - cam-drin neu esgeuluso;
- ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r Cyngor yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu esgeuluso neu'r perygl o hynny.

## Beth ydyn ni'n ei olygu wrth ddiogelu?

Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel, waeth pwy ydyn nhw neu beth yw eu hamgylchiadau. Mae diogelu yn ymwneud ag amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Mae gan holl gontractwyr y Cyngor gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn gwneud popeth o fewn eu gallu i amddiffyn yr aelodau mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas; mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb.

Mae diogelu'n cynnwys:

- Atal camdriniaeth, esgeulustod a niwed
- Adnabod gwahanol fathau o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed
- Rhoi gwybod am gamdriniaeth, esgeulustod a niwed
- Rhoi trefniadau ar waith o fewn sefydliadau i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu, er enghraifft – polisïau GDG, codau ymddygiad.

## Sut mae cam-drin yn edrych?

Gall cam-drin fod yn ganlyniad i weithred neu fethiant i weithredu mewn modd priodol. Gall gynnwys un weithred neu weithredoedd ailadroddus a gall ddigwydd ar draws pob grŵp cymdeithasol. Gellir disgrifio camdriniaeth ac esgeulustod yn y pum categori canlynol:

### Cam-drin Corfforol

- Gall hyn gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi, sgaldio, boddi neu fygu neu achosi niwed corfforol i blentyn neu oedolyn.

### Cam-drin Rhywiol

Gorfodi neu ddenu plentyn neu oedolyn i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, waeth p'un a yw'n ymwybodol ai peidio o'r hyn sy'n digwydd. Gall hyn gynnwys:

- cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddiol neu anhreiddiol;
- dim cyswllt corfforol, fel cynnwys plentyn neu oedolyn wrth edrych ar neu gynhyrchu deunydd pornograffig neu wylio gweithgareddau rhywiol; neu
- annog oedolion neu blant i ymddwyn yn rhywiol mewn ffyrdd sy'n rhywiol amhriodol.

**Esgeulustod**

- Esgeulustod yw methiant ailadroddus i ateb anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn neu oedolyn, sy'n debygol o arwain at niwed difrifol i'w iechyd neu ei ddatblygiad.
- Gall hyn gynnwys rhiant, aelod o'r teulu neu ofalwr yn methu â rhoi bwyd, dillad neu loches digonol, methu â diogelu plentyn neu oedolyn rhag niwed corfforol neu berygl neu fethu â sicrhau y caiff ofal neu driniaeth ddiogel.
- Gall hefyd gynnwys esgeuluso neu beidio ag ymateb i anghenion emosiynol plentyn neu oedolyn.

**Cam-drin Emosiynol**

- Trin plentyn neu oedolyn yn wael yn emosiynol, nes achosi effaith negyddol ddifrifol a pharhaus ar ei ddatblygiad emosiynol ac ymddygiadol.
- Gall hyn gynnwys dweud wrth y plentyn neu'r oedolyn ei fod yn ddiwerth neu nad oes unrhyw un yn ei garu, ei fod yn annigonol neu na chaiff ei werthfawrogi heb ateb anghenion rhywun arall.
- Gall gynnwys codi ofn ar blant neu oedolion neu wneud iddynt deimlo mewn perygl, er enghraifft drwy fod yn dyst i gam-drin domestig yn y cartref neu gael eu bwlio, neu drwy ecsbloetiaeth neu lygredigaeth.

**Cam-drin Ariannol**

- Dwyn arian neu eiddo
- Twyllo ariannol e.e. sgamiau
- Cael ei roi dan bwysau i dalu am bethau er budd rhywun arall
- Rhywun arall yn defnyddio ei arian fel ei arian ei hun.
- Plant yn ennill arian trwy ddigwyddiadau adloniant a'r arian hwnnw ddim yn mynd i ymddiriedolaeth.
- Mae ffurfiau eraill ar gam-drin, megis bwlio, priodas dan orfod, Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (AOCB), caethwasiaeth fodern, camfanteisio rhywiol a radicaleiddio

Gall camdriniaeth ddigwydd mewn unrhyw berthynas – personol, proffesiynol neu sefydliadol. Gall camdriniwr fod yn aelod o'r teulu, yn ffrind neu'n gymydog. Gallai fod yn rhywun sy'n cael ei dalu i ddarparu gofal neu wasanaethau proffesiynol eraill, gweithiwr iechyd neu rywun sy'n gweithio fel gwirfoddolwr. Mae yna hefyd bobl sy'n cyfeillio oedolion bregus ac yn ennill eu hymddiriedaeth er mwyn eu hecsbloetio neu eu cam-drin. Mewn lleoliad sefydliadol, fel cartref gofal neu wasanaeth dydd, gallai'r gamdriniaeth fod gan rywun sy'n gweithio yno neu rywun arall sy'n byw yn y gwasanaeth neu'n ei ddefnyddio.

## Rôl a chyfrifoldebau'r Contractwyr

Nid cyfrifoldeb y Contractwr yw penderfynu a yw camdriniaeth/niwed yn digwydd. Fodd bynnag, mae yn gyfrifoldeb ar y Contractwr i drosglwyddo pryderon a godwyd gan y gweithlu. Mae angen i Gontractwyr sicrhau bod eu gweithlu'n ymwybodol o'r mathau o gamdriniaeth.

Rhaid i Gontractwyr godi unrhyw bryder neu honiad, heb oedi, yn unol â'r Protocol hwn. Ni ddylid anwybyddu pryderon a rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor heb oedi. Mae arwyddion o gam-drin neu esgeulustod yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- anafiadau anesboniadwy;
- bod yn swil/anghymdeithasol;
- arwyddion o ofn neu ofid;
- eiddo personol ar goll;
- amodau byw ac ymddangosiad gwael.

Os ydych chi'n credu bod plentyn neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol o gael ei niweidio rhaid i chi **ffonio'r Heddlu ar 999**. Ni ddylech byth dybio y bydd rhywun arall yn rhoi gwybod am y pryderon ac os cytunir y bydd rhywun arall yn rhoi gwybod am y pryderon, eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr eu bod wedi gwneud hyn.

Cyfrifoldeb Contractwyr yw sicrhau bod eu gweithlu'n cyflawni eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion. Rhaid i'r gweithlu ymddwyn mewn ffordd sy'n eu hamddiffyn rhag honiadau ffug o gam-drin cyn belled ag y bo'n bosibl ac yn unol â'r Protocol hwn, Cod Ymddygiad Diogelu y Cyngor, ond mae hyfforddiant a gwybodaeth ychwanegol yn gyfrifoldeb ar y Contractwr.

## Sut i godi pryderon neu adrodd am honiadau o gam-drin

Efallai y bydd rhywun yn gweld neu'n clywed rhywbeth sy'n destun pryder neu gall rhywun ddweud wrth gyflogai ei fod yn cael ei gam-drin neu fod rhywun arall yn cael ei gam-drin. **Mae gan y Contractwr gyfrifoldeb i roi'r wybodaeth ganlynol i'w weithlu fel bod ganddynt wybodaeth sylfaenol am sut i ymateb a phwy i gysylltu â nhw.**

Os yw plentyn, person ifanc neu oedolyn yn honni eu bod yn cael eu cam-drin, dylai Contractwyr:

- eu sicrhau eu bod wedi gwneud y penderfyniad iawn i ddweud wrthych chi;
- peidio â gofyn cwestiynau arweiniol;
- cyn gynted ag y bo modd ar ôl cael gwybod, gwneud cofnod ysgrifenedig o'r hyn a ddywedwyd yn eu geiriau eu hunain
- peidio ag addo i blentyn, person ifanc neu oedolyn y bydd rhywbeth y maent wedi'i ddweud neu wneud yn cael ei gadw'n gyfrinachol.

**Plant**
Os ydych chi'n credu bod plentyn mewn perygl, nad yw'n cael y gofal cywir neu os oes gennych bryderon ynghylch ei les, cysylltwch â ni ar: **01656 815808/01656 642320.**
Fel arall, e-bostiwch**: mashcentra@bridgend.gov.uk**

**Oedolion**
Os ydych chi'n credu bod oedolyn yn cael ei gam-drin, cysylltwch â'r Tîm Diogelu Oedolion ar: **01656 642477**. Fel arall, e-bostiwch: **AdultsafeguardingMASH@bridgend.gov.uk**

**Tîm Dyletswydd Argyfwng Cwm Taf Morgannwg**
Os oes unrhyw bryderon y tu allan i oriau swyddfa ar ôl 5.00pm, Dydd Llun i Ddydd Gwener ac ar benwythnosau a Gwyliau Banc, ffoniwch y Tîm Dyletswydd Argyfwng ar **01443 743665.**

## Beth fydd yn digwydd os byddaf yn rhoi gwybod am bryder i'r Gwasanaethau Cymdeithasol?

Pan fyddwch yn cysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd yr aelod o staff yn cymryd cymaint o fanylion ag sydd eu hangen i weld a oes angen i'r atgyfeiriad fynd drwy'r broses ddiogelu neu sut y gellir helpu'r unigolyn, a allai gynnwys cysylltu â gwasanaeth arall.

Bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn asesu a oes angen i'r atgyfeiriad fynd drwy'r broses ddiogelu a byddant yn dilyn polisi a gweithdrefnau cenedlaethol.

Bydd y camau yn dilyn yr asesiad yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, ond gallent gynnwys cynnig math gwahanol o wasanaeth neu gefnogaeth i’r person neu, mewn amgylchiadau eithriadol, y llys yn cymryd camau cyfreithiol. Bydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod yr unigolyn yn cael ei amddiffyn nawr ac yn y dyfodol. Er budd cyfrinachedd, mae'n annhebygol iawn y cewch eich hysbysu o ganlyniad yr asesiad.

### Beth os ydych chi wedi gwneud camgymeriad ac nad oes unrhyw gam-drin yn digwydd?

Os nad ydych chi’n siŵr, mae'n well eich bod wedi trafod eich pryderon gyda rhywun sydd â phrofiad a chyfrifoldeb am wneud penderfyniad gwybodus nag anwybyddu sefyllfa a allai arwain at niwed i rywun sy'n agored i niwed.